## Fforwm Cyllideb Ysgolion 17 Chwefror 2025

## Gwasanaethau Ansawdd Addysg

Ffigyrau diweddaraf 2025/26

| | Cyllideb | Sylwadau |
|---|---|---|
| Cyllideb Rheolaethol yr Adran | £669,230 | Rheolaeth yr Adran gyfan, yn cynnwys elfennau sy'n debygol tu allan i 'safonau'. |
| Dyraniad Craidd GwE | £665,370 | £619,960 ydi cyfraniad 24/25 GwE – chwyddiant o £45,410 ychwanegol bellach, felly'r gyllideb ychydig yn uwch. |
| Grant Safonau | £199,439 | Dyraniad grant cefnogi safonau |
| Dysgu Proffesiynol | £110,711 | Dyraniad grant cefnogi Dysgu Proffesiynol |
| Cwricwlwm | £345,956 | Dyraniad grant cefnogi cwricwlwm yn cynnwys £98,533 'llythrennedd a rhifedd ychwanegol' |
| **Cyfanswm:** | **£1,990,706** | |

**Beth fydd y strwythur o ddiwedd Mai 2025 ymlaen?**

***Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion (Rôl Newydd )***

Er mwyn arwain ar y gwaith Gwella Ysgolion sy'n trosglwyddo atom yn dilyn diddymu GwE, ac integreiddio'r gwaith yma i weddill gwaith cefnogi ysgolion yr Adran, fe fyddwn yn symud i benodi a sefydlu rôl Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion newydd fydd yn cymryd cyfrifoldeb am gefnogi a gwella ysgolion yn ei gyfanrwydd. Pwrpas y swydd fydd arwain y tîm fydd yn cefnogi arweinyddiaeth, ansawdd addysg, rheolaeth a llywodraethiant ysgolion Gwynedd. Fe fydd ystod eang i'r dyletswyddau ond yn ei hanfod fe fydd angen sicrhau fod prosesau ysgolion ac awdurdod o ran cefnogi a gwella ysgolion yn bwrpasol ac effeithiol. Fe fydd disgwyl i'r Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion ddirprwyo ar ran y Pennaeth Addysg yn ôl y gofyn.

***Swyddogion Cefnogi Ysgolion (Rôl Newydd)***

Fe fydd y swyddi hyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion, ac yn cyplysu rôl Swyddogion Addysg bresennol a rôl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sydd yn eistedd yn GwE ar hyn o bryd. Pwrpas y swyddi fydd cefnogi arweinyddiaeth, rheolaeth, ansawdd addysg a llywodraethiant ysgolion Gwynedd. Bydd y swyddogion yma yn treulio mwyafrif helaeth eu hamser mewn ysgolion yn gweithio ochr yn ochr â'n hysgolion i oresgyn heriau a gwella ansawdd profiadau a sicrhau cynnydd ein dysgwyr.

Bydd ffocws pob un o'r swyddogion ar feithrin cydweithio ysgol i ysgol a chlystyrau o ysgolion yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru.

Fe fydd gan rai arbenigedd mewn meysydd penodol ac o ganlyniad fe fydd angen iddynt arwain ar rai agweddau'n draws sirol.

Gan fod canran o'r swyddi yn cael ei ariannu drwy grant fe fyddant yn arwain ar sicrhau ein bod yn cyfarfod â gofynion y grantiau amlygir gan Lywodraeth Cymru o ran cefnogaeth i:

- Ddysgu Proffesiynol a Chefnogaeth i Arweinyddiaeth
- Ddiwygio'r Cwricwlwm
- Cymraeg 2050

Fe fydd yn rhaniad o ran profiad ac arbenigedd sector wedi ei rannu yn 40% uwchradd / gydol oes a 60% cynradd /arbennig.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Lleol Ynys Môn er mwyn rhannu arbenigeddau Swyddogion Cefnogi Ysgolion. Yr ydym eisoes yn cydweithio ynghylch ADY a Chynhwysiant, Rhannu Data ac Ôl-16. Mae rolau a chyfrifoldebau a rennir ar draws y bartneriaeth arfaethedig yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd a byddant yn cael eu ffurfioli unwaith y bydd newid i'r strwythur staffio a throsglwyddiad staff yn cael ei gadarnhau gan y ddwy ochr.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill y tu hwnt i'r trefniant partneriaeth lleol yn unol â'r gofyn. Un maes allweddol lle y mae dymuniad i ddatblygu byddai cefnogaeth i Ysgolion Arbennig.

Dros amser disgwylir i nifer y Swyddogion Cefnogi Ysgolion leihau wrth i'r gwaith o gefnogi ysgol i ysgol aeddfedu, fodd bynnag yr ydym yn cydnabod y gall hynny gymryd peth amser yn enwedig yma yng Ngwynedd.

***Swyddogion Cynorthwyol Cefnogi Ysgolion***

Fe fydd y swyddi yma yn canolbwyntio ar gefnogi agweddau sydd ddim yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd addysg. Gall gynnwys cefnogaeth i Lywodraethwyr, arweiniad ar ddelio â chwynion neu gyngor cychwynnol ar ystod o heriau gan gynnwys materion adnoddau dynol.

***Cymhorthydd Cefnogi Ysgolion***

Fe fydd y swydd yma yn cynnig cefnogaeth weinyddol i'r tîm ynghyd a darparu cefnogaeth weinyddol i Gyrff Llywodraethol.

**Sut y byddwn ni'n hyrwyddo gwaith ysgol i ysgol?**

Fe fyddwn ni'n cadw cyllideb wrth gefn er mwyn rhyddhau ysgolion i gefnogi ysgolion eraill. Bydd y gwaith yn cael ei gomisiynu o'r canol. Does dim modd bod yn bendant o ran maint y gyllideb ar hyn o bryd.